Fersiwn	6
Dyddiad adolygu diwethaf	Mawrth 2021

Iechyd a Diogelwch
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Health and Safety
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

HS 16

Polisi Gweithgareddau Antur i Bobl Ifainc

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English

RHONDDA CYNON TAF

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	**Polisi Gweithgareddau Antur i Bobl Ifainc**
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif ffôn	01443 425536
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	Mawrth 1997
Swyddog Diwygio	Mike Murphy
Dyddiad Diwygio	Mai 2023
Dyddiad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb	2008
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Mawrth 1997	Gerwyn Hogben
Gorffennaf 2002	Gerwyn Hogben
Chwefror 2010	Mike Murphy
Awst 2016	Mike Murphy
Awst 2018	Mike Murphy
Mawrth 2021	Mike Murphy
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Carfan Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol	
Carfan y Rheolwyr Corfforaethol	
Cabinet	

CYNNWYS

1. Cyflwyniad 1
2. Datganiad Polisi 1
Canllawiau Polisi 3
3. Asesiadau Risg 3
4. Hyfforddwyr Cymwys 3
5. Gwybodaeth Ynghylch Diogelwch 4
6. Offer 4
7. Trefniadau Cymorth Cyntaf 4
8. Cofnodi A Rhoi Gwybod am Ddamweiniau a Digwyddiadau Peryglus 5
9. Monitro 5
10. Cyngor 5
Rhestr Wirio i Reolwyr 6

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r polisi yma wedi'i baratoi mewn ymateb i Ddeddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifainc) 1995 a Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 2004.

1.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gydag ef ddyletswydd o dan Adran 2 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 i sicrhau iechyd, diogelwch a lles ei holl weithwyr. Mae'n cydnabod hefyd bod ganddo ddyletswydd o dan adran 3 o Ddeddf 1974 i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y bobl sydd ddim yn cael eu cyflogi ganddo, ond a all gael eu heffeithio gan y gweithgareddau mae'n ymgymryd â nhw.

1.3 O dan Ran V o Ddeddf yr Heddlu 1997, mae'r Cyngor eisoes yn ymchwilio'n fanwl i gefndir gweithwyr y mae'u dyletswyddau yn cynnwys cysylltiad â phobl ifainc. Bydd unrhyw bersonau sy'n ymwneud â goruchwylio gweithgareddau antur pobl ifainc yn ddarostyngedig i'r gwiriadau heddlu sy'n cael eu hargymell.

1.4 Mae gwybodaeth fanylach ar gael yng Nghanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gan yr Awdurdod Trwyddedu ar y Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 2004: Deddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifainc) 1995 (L 77) (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel L 77).

2. DATGANIAD POLISI

2.1 Bydd pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i sicrhau iechyd, diogelwch a lles gweithwyr, pobl ifainc ac eraill sy'n cyflawni'r gweithgareddau canlynol (mae rhagor o arweiniad ar y gweithgareddau yma i'w weld yn L 77):

- **ogofa** (archwilio tanddaearol mewn ogofâu naturiol a mwyngloddiau gan gynnwys ogofeuo, plymio mewn ogofâu ac archwilio mwyngloddiau, ond nid yn y rheiny sy'n cael eu defnyddio gan amlaf yn atyniadau i'r cyhoedd);
- **dringo** (gweithgareddau dringo, trawsteithio, abseilio a sgramblo, ac eithrio ar waliau dringo neu dyrau abseilio pwrpasol);
- **hirdeithio** (cerdded, rhedeg, merlota, beicio mynydd, sgïo oddi ar y piste a gweithgareddau cysylltiedig pan fydd y rhain yn cael eu gwneud ar weunydd neu ar fynyddau uwch na 600 metr sy'n anghysbell, h.y. dros 30 munud i ffwrdd o'r ffordd neu'r lloches agosaf);
- **chwaraeon dŵr** (canŵio, rafftio, hwylio a gweithgareddau cysylltiedig pan fydd y rhain yn cael eu gwneud ar y môr, mewn dyfroedd llanw neu ddyfroedd mewndirol garw).

2.2 Cyn cychwyn y gweithgareddau yma, bydd y Cyngor yn sicrhau, lle y bo'n briodol, y bydd darparwr y gweithgaredd wedi'i gofrestru yn unol â'r Rheoliadau Trwyddedu.

2.3 Lle bo unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n cael eu rhestru yn cael eu darparu gan staff neu wirfoddolwyr cofrestredig, a'u bod nhw y tu allan i'r cwmpas trwyddedu, y polisi fydd sicrhau y byddai'r un safonau iechyd a diogelwch yn gymwys fel pe baen nhw wedi'u trwyddedu.

2.4 Personau ifainc, yn yr ystyr yma, yw rhai sydd o dan 18 oed.

2.5 Y Cyfarwyddwyr neu'r Penaethiaid Gwasanaeth unigol sy'n gyfrifol am roi gofynion y polisi ar waith ac am baratoi strategaeth gweithredu.

CANLLAWIAU POLISI

3. ASESIADAU RISG

3.1 Rhaid cynnal asesiadau risg addas a digonol ar gyfer y risg i iechyd a diogelwch staff, pobl ifainc ac eraill a all gael eu heffeithio yn ystod y gweithgaredd, a hynny cyn i'r gweithgaredd ddechrau. Diben yr asesiad risg yw nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd er mwyn cydymffurfio â gofynion y darpariaethau statudol perthnasol, h.y. i nodi mesurau ataliol ac amddiffynnol angenrheidiol i reoli'r risg a gafodd ei hamlygu yn yr asesiad.

3.2 Rhaid penodi personau cymwys i gynnal asesiadau risg. Rhaid i'r person fod â dealltwriaeth o'r gweithgaredd, y gallu i wneud penderfyniadau cadarn a gwybodaeth am y modd ymarferol gorau i leihau'r risgiau wedi'u nodi.

3.3 Rhaid i'r holl asesiadau risg gael eu hategu drwy gadw conodion cywir. Dylai'r cofnodion gynnwys o leiaf yr wybodaeth ganlynol:

- disgrifiad o'r gweithgaredd sy'n cael ei asesu;
- y peryglon arwyddocaol a gafodd eu nodi yn yr asesiad;
- y mesurau rheoli presennol sydd ar waith ac i ba raddau maen nhw'n rheoli'r risg;
- gweithredu pellach angenrheidiol i reoli'r risg;
- personau a all gael eu heffeithio gan y risgiau arwyddocaol yma;
- dyddiad yr asesiad a, lle bo'n briodol, y dyddiad adolygu nesaf;
- enw'r person cymwys sy'n cynnal yr asesiad.

3.4 Ni ddylid bwrw ymlaen â gweithgareddau nes cynnal asesiad risg addas a digonol a rhoi'r mesurau rheoli ar waith.

4. HYFFORDDWYR CYMWYS

4.1 Rhaid penodi nifer ddigonol o hyfforddwyr cymwysedig sydd wedi cael yr hyfforddiant a'r profiad priodol, ac sydd â'r rhinweddau personol a'r sgiliau cyfathrebu i sicrhau diogelwch y cyfranogwyr yn ôl eu hoedran, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw anghenion addysgol.

4.2 Rhaid i hyfforddwyr cymwys fod yn bresennol bob amser.

5. GWYBODAETH YNGHYLCH DIOGELWCH

5.1 Cyn cynnal unrhyw weithgaredd, rhaid i weithdrefnau fod ar waith i sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyfarwyddyd sydd eu hangen yn cael eu rhoi i staff a chyfranogwyr i sicrhau'u diogelwch, ar ffurf ddealladwy a pherthnasol.

6. OFFER

6.1 Rhaid i offer personol addas ac offer diogelwch arall sy'n addas ar gyfer y gweithgaredd a'r person, fod ar gael.

6.2 Rhaid i drefniadau fod ar waith i sicrhau bod yr offer yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- rhaid i'r offer fod wedi'i gynnal yn dda yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr neu'r cyflenwyr;
- rhaid i'r offer fod yn addas at y diben;
- rhaid bod gwiriadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y canlyniadau yn cael eu cofnodi;
- ar ddechrau bob sesiwn, rhaid gwirio bod yr offer o'r maint cywir a'i fod yn cael ei wisgo'n gywir – dylai hefyd gael ei wirio o bryd i'w gilydd yn ystod y sesiwn;
- lle bo'n briodol, dylai'r offer fodloni'r safon Genedlaethol neu Ewropeaidd.

6.3 Rhaid i system fod ar waith i nodi offer sydd wedi cael ei dynnu'n ôl oherwydd nad yw'n ddiogel i'w ddefnyddio.

7. TREFNIADAU CYMORTH CYNTAF

7.1 Rhaid i gyfranogwyr fod yng nghwmni nifer ddigonol o bersonau cyfrifol sydd â thystysgrif cymorth cyntaf ddilys sy'n cael ei chydnabod yn genedlaethol.

7.2 Rhaid i offer cymorth cyntaf digonol ac addas gael ei ddarparu ar gyfer pob gweithgaredd. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gludiant sy'n cael ei ddefnyddio.

7.3 Rhaid i drefniadau fod ar waith ar gyfer galw gwasanaethau meddygol ac achub mewn achos o argyfwng, ac ar gyfer delio â'r argyfwng fel arall.

8. COFNODI A RHOI GWYBOD AM DDAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU PERYGLUS

8.1 Dylid cyfeirio at Bolisi HS5 (Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus) ac i Ganllawiau Trefniant Cofnodi Damweiniau y Cyngor ar y gweithdrefnau adrodd i'w dilyn o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

8.2 Dylid cyfeirio at Bolisi HS 13 (Trais yn y Gwaith) ar gyfer y gweithdrefnau i'w dilyn i adrodd am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thrais yn y gwaith.

8.3 Dylid cyfeirio hefyd at Ffurflen HS5(A), sef Ffurflen Cofnodi Ymchwilio i Ddigwyddiadau/Damweiniau y Cyngor ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau a'u cofnodi, ac i Ffurflen HS(V1), sef Ffurflen Adrodd ar Ddigwyddiadau y Cyngor sy'n ymwneud â Thrais yn y Gwaith ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thrais.

9. MONITRO

9.1 Rhaid monitro'r gweithgareddau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau antur i bobl ifainc.

10. CYNGOR

10.1 Mae modd cael cyngor ar weithredu'r polisi yma oddi wrth y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam, CF40 1NY, rhif ffôn 01443 425531.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

HS16

RHESTR WIRIO I REOLWYR

	Wedi'i gyflawni?		
	Dd/B	✓	X
• Oes asesiad risg wedi'i gynnal mewn perthynas â'r gweithgareddau hynny lle mae pobl ifainc mewn sefyllfa beryglus?			
• Oes camau wedi'u cymryd o ganlyniad i'r asesiad i leihau'r risg?			
• Ydy unigolion cymwys yn cael eu penodi i gynnal asesiadau risg?			
• Oes ymchwiliadau yn cael eu cynnal i gefndir yr unigolion fydd yn goruchwylio'r personau ifainc?			
• Ydy hyfforddwyr cymwys yn bresennol ar bob adeg yn ystod y gweithgaredd?			
• Ydy'r holl offer (personol a diogelwch) yn addas i'r gweithgaredd?			
• Oes digon o swyddogion cymorth cyntaf yng nghwmni'r cyfranogwyr ar bob adeg; offer cymorth cyntaf digonol yn cael ei ddarparu; a threfniadau ar waith ar gyfer galw am gymorth mewn argyfwng?			
• Oes gweithdrefnau cofnodi ac adrodd yn eu lle?			
• Oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu bodloni? **Noder:** Cyfeiriwch at adran 2 o'r polisi ar gyfer yr hyn y mae modd ei ddisgrifio'n weithgareddau antur.			

Wedi'i llenwi gan: _____ (Llofnod)

Enw: _____ (Llythrennau bras)

Swydd: _____

Dyddiad: _____

Wedi'i gadarnhau gan: _____ (Llofnod)

Enw: _____ (Llythrennau bras)

Swydd: _____

Dyddiad: _____